Senedd Cymru | Welsh Parliament
**Ymchwil y Senedd | Senedd Research**

# Amseroedd aros y GIG – Adroddiad monitro tymhorol

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol | 6 Hydref 2022
Health and Social Care Committee | 6 October2022

Cyfeirnod: RS22/3562-1

## Cyflwyniad

Ym mis Ebrill 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei rhaglen i drawsnewid a moderneiddio gofal a gynlluniwyd a lleihau rhestrau aros yng Nghymru.

Mae Eluned Morgan AS, y Gweinidog Iechyd, wedi dweud "fe fydd hi'n cymryd tymor Senedd llawn a llawer o waith caled i adfer wedi effaith y pandemig", a nododd, "honno yw fy mlaenoriaeth i erbyn hyn a blaenoriaeth y gwasanaeth iechyd".

Mae'r Gweinidog wedi nodi ei hymrwymiad i leihau rhestrau aros drwy bum uchelgais allweddol. Mae'r papur hwn yn edrych ar y cynnydd a wnaed gan Lywodraeth Cymru tuag at gyrraedd yr uchelgeisiau hyn ac yn edrych yn fanylach ar yr arbenigeddau hynny ble y mae pobl yn aros am fwy na blwyddyn neu ddwy flynedd.

Cyhoeddir data amseroedd aros yn fisol ar wefan StatsCymru gydag oedi o ddau fis. Felly data Gorffennaf 2022 yw'r diweddaraf sydd ar gael ar adeg ysgrifennu hwn.

O.N Ers 2009, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi data misol ar Amseroedd Atgyfeirio hyd amser Triniaeth y GIG (RTT), sy'n mesur cyfanswm yr amser aros rhwng atgyfeirio gan feddygon teulu a thriniaeth, a hon yw'r brif ffynhonnell wybodaeth am amseroedd aros y GIG bellach. Nid yw

adroddiadau Amseroedd Atgyfeirio hyd amser Triniaeth y GIG (RTT), fodd bynnag, yn cynnwys rhai arbenigeddau. Cyhoeddir y data amseroedd aros ar gyfer y rhain ar wahân ar wefan StatsCymru, gan gynnwys ar gyfer gwasanaethau ysbytai iechyd meddwl, gofal lliniarol a deintyddiaeth cleifion mewnol/gofal dydd. Mae cardioleg hefyd yn cael ei fesur ar wahân gan ddefnyddio methodoleg wahanol.

Mae erthyglau Ymchwil y Senedd ar ôl-groniad amseroedd aros y GIG ar gael hefyd:

- Lleihau'r ôl-groniad o ran rhestrau aros y GIG
- Oedi o ran mynediad: yr ôl-groniad o ran amseroedd aros yn GIG Cymru

# 1. Penawdau

Mae GIG Cymru yn gweld nifer sylweddol o gleifion. Roedd nifer y llwybrau cleifion a gaewyd ym mis Gorffennaf 2022 ychydig dros 87,000, sef cyfartaledd o 4,162 o lwybrau cleifion fesul diwrnod gwaith. Er gwaethaf hyn, mae'r rhestrau aros yn parhau i dyfu.


Mae cyfanswm nifer y llwybrau cleifion sy’n aros yng Nghymru wedi cynyddu ers dechrau’r pandemig (Chwefror 2020), pan oedd yn 463,402 i 701,411 ym mis Mawrth 2022. Ar ddiwedd mis Gorffennaf 2022, y ffigur hwnnw oedd 743,229.

Ym mis Gorffennaf, roedd 181,390 o lwybrau cleifion wedi aros 53 wythnos neu ragor am driniaeth. Roedd 60,557 o lwybrau cleifion yn aros am ragor na 105 wythnos, er bod y nifer hwn wedi bod lleihau yn ystod y misoedd diwethaf.

Mae’r graffeg a’r dadansoddiad isod yn dangos cynnydd yn erbyn pum uchelgais Llywodraeth Cymru.

## Uchelgais 1: Neb i aros mwy na blwyddyn am eu hapwyntiad claf allanol cyntaf erbyn diwedd 2022

Ffigur 1: Nifer y llwybrau cleifion sy'n aros dros 53 wythnos am eu hapwyntiad claf allanol cyntaf




Ffynhonnell: StatsCymru, Llwybrau cleifion sy'n aros i ddechrau triniaeth yn ôl mis, wythnosau wedi'u grwpio a cham y llwybr


- Ym mis Gorffennaf 2022, roedd 101,106 o lwybrau cleifion yn aros dros 53 wythnos (mwy na blwyddyn) am eu hapwyntiad claf allanol cyntaf.
- Mae hyn yn gynnydd o 97,882 ym mis Mehefin 2022 a 95,720 ym mis Mai 2022.

Y mis hwn, am y tro cyntaf ers 2020, rhyddhaodd Llywodraeth Cymru ddata ar gyfer yr holl atgyfeiriadau cleifion allanol (gweler 'Atgyfeiriadau GIG ar gyfer apwyntiadau cyntaf fel cleifion allanol: Mis Ebrill 2012 tan fis Gorffennaf 2022). Mae'r data'n dangos y gostyngiad enfawr mewn atgyfeiriadau yn ystod ton gyntaf y pandemig. Rydym bellach yn gweld rhywfaint o 'adfer y sefyllfa fel yr

oedd' o ran nifer yr atgyfeiriadau yn dychwelyd i'r lefel yr oeddent cyn y pandemig.

## Uchelgais 2: Dileu nifer y bobl sy'n aros am fwy na dwy flynedd ar gyfer y rhan fwyaf o arbenigeddau erbyn mis Mawrth 2023

Ffigur 2: Nifer y llwybrau cleifion sy'n aros mwy na 105 wythnos yn ôl triniaeth





Ffynhonnell: StatsCymru, Llwybrau cleifion sy'n aros i ddechrau triniaeth yn ôl mis, wythnosau wedi'u grwpio a gweithrediad y driniaeth, o Ionawr 2021 ymlaen

- Ym mis Gorffennaf 2022, roedd 60,557 o lwybrau cleifion yn aros dros 105 wythnos (mwy na blwyddyn) ar draws pob arbenigedd.
- Mae data mis Gorffennaf yn dangos bod 17,408 o lwybrau cleifion yn aros dros 105 wythnos (mwy na dwy flynedd) am driniaethau trawma ac orthopedig, 9,691 am driniaethau'r glust, y trwyn a'r gwddf, a 8,269 am lawfeddygaeth gyffredinol.
- Mae nifer y llwybrau cleifion sy'n aros mwy na 105 wythnos wedi lleihau ers mis Mawrth 2022. Fodd bynnag, mae rhagamcan sy'n defnyddio

data o fis Mawrth i fis Gorffennaf yn dangos, ar y gyfradd gyfredol o gynnydd, na chaiff yr uchelgais ei chyflawni tan ganol 2024. Mae hyn yn rhagdybio bod cyfradd y cynnydd ers mis Mawrth yn parhau. Mae cyflawni'r uchelgais yn gynt yn gofyn am gynnydd cyflymach. Mae'n annhebygol y bydd yr uchelgais hon yn cael ei chyflawni ar gyfer pob arbenigedd.


Ffigur 3: Nifer y llwybrau cleifion sy'n aros dros 105 wythnos a'r rhagamcan yn seiliedig ar ddata mis Mawrth tan fis Gorffennaf 2022




Ffynhonnell: StatsCymru, Llwybrau cleifion sy'n aros i ddechrau triniaeth yn ôl mis, wythnosau wedi'u grwpio a gweithrediad y driniaeth, o Ionawr 2021 ymlaen

## Uchelgais 3: Dileu nifer y bobl sy'n aros mwy na blwyddyn ar gyfer y rhan fwyaf o arbenigeddau erbyn gwanwyn 2025

Ffigur 4: Nifer y llwybrau cleifion sy'n aros mwy na 53 wythnos yn ôl triniaeth





Ffynhonnell: StatsCymru, Llwybrau cleifion sy'n aros i ddechrau triniaeth yn ôl mis, wythnosau wedi'u grwpio a gweithrediad y driniaeth, o Ionawr 2021 ymlaen

- Ym mis Gorffennaf 2022, roedd 181,390 o lwybrau cleifion yn aros dros 53 wythnos (mwy na blwyddyn) ar draws pob arbenigedd. Mae hyn 2 y cant yn uwch na'r ffigur o 177,964 ym mis Mehefin 2022.
- Mae nifer y llwybrau cleifion sy'n aros dros 53 wythnos yn cynyddu, gyda chynnydd o 8 y cant yn y niferoedd ar gyfer mis Gorffennaf 2022 o gymharu â mis Mawrth 2022.
- Ym mis Gorffennaf 2022, roedd 40,410 o lwybrau cleifion yn aros dros 53 wythnos (mwy na blwyddyn) am driniaethau trawma ac orthopedig, 27,542 am lawfeddygaeth gyffredinol a 26,964 am driniaethau offthalmoleg.

## Uchelgais 4: Cynyddu cyflymder profion diagnostig ac adrodd i wyth wythnos ac 14 wythnos ar gyfer ymyriadau therapi erbyn gwanwyn 2024

Ffigur 5: Nifer y llwybrau cleifion sy'n aros 8 wythnos neu ragor am wasanaethau diagnostig a thros 14 wythnos am wasanaethau therapi





Ffynhonnell: StatsCymru, Amseroedd aros gwasanaethau diagnostig a therapi

- Ym mis Gorffennaf 2022, roedd 43,386 o lwybrau cleifion yn aros 8 wythnos neu ragor am wasanaethau diagnostig, fel endosgopi, delweddu, radioleg a chardioleg.
- Mae data mis Gorffennaf yn dangos mai endosgopi a niwroffisioleg sydd â'r ganran uchaf o lwybrau cleifion sy'n aros mwy nag 8 wythnos. Mae endosgopi â 25,777 o lwybrau cleifion yn aros, sy'n cyfateb i 23.4 y cant o'r holl aros am lwybrau diagnostig. Mae radioleg â 62,590 o lwybrau cleifion yn aros (gan gyfuno'r 2 gategori radioleg), sy'n cyfateb i 56.7 y cant o'r holl aros am lwybrau diagnostig.
- Mae'r amseroedd aros hiraf ym mis Gorffennaf 2022 ar gyfer endosgopi diagnostig (canolrif 15.6 wythnos) a niwroffisioleg (canolrif 10.6 wythnos).
- Roedd 12,509 o lwybrau cleifion pellach yn aros mwy na 14 wythnos am wasanaethau therapi, fel awdioleg, ffisiotherapi, therapi galwedigaethol, podiatreg a lleferydd ac iaith ac ati.

- Mae bwrdd rhaglen wedi'i sefydlu ac mae'n goruchwylio datblygiad strategaeth ddiagnostig genedlaethol sydd i'w chyhoeddi yn hydref 2022, sy'n cynnwys cynlluniau ar gyfer tri chanolbwynt diagnostig rhanbarthol.

## Uchelgais 5: Diagnosis a thriniaeth canser i ddigwydd o fewn 62 diwrnod ar gyfer 80 y cant o bobl erbyn 2026

Ffigur 6: Canran y bobl â diagnosis o ganser a oedd wedi dechrau eu triniaeth ddiffiniol gyntaf o fewn 62 diwrnod i'r pwynt y cafodd canser ei amau gyntaf.




Ffynhonnell: StatsCymru, Llwybr amheuaeth o ganser (llwybrau caeedig): Nifer y llwybrau gofal ble y dechreuodd y claf gael triniaeth ddiffiniol gyntaf a'r rhai a gafodd wybod nad oes ganddynt ganser, yn ôl bwrdd iechyd lleol, safle'r canser, grŵp oedran, rhyw, mesur ac yn ôl mis.

- Gwnaeth 53.5 y cant (853 allan o 1,594) o gleifion a ddechreuodd eu triniaeth ddiffiniol gyntaf ym mis Gorffennaf 2022 hynny o fewn 62 diwrnod i gael yr amheuaeth bod canser arnynt am y tro cyntaf. Mae hyn yn ganran is na mis Mehefin 2022 (54.0 y cant) a mis Gorffennaf 2021 (63.4 y cant).

- Mae ystadegau ar gael fesul safle tiwmor. Mae data Gorffennaf 2022 yn dangos mai'r amseroedd aros hiraf yw maes wrolegol, gynaecoleg a'r pen a gwddf.
- Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ddatganiad Ansawdd Canser ym mis Mai 2022. Mae Cynllun Cyflawni Gwasanaethau Canser i'w gyhoeddi yn hydref 2022.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Sarah Hatherley

Sarah.Hatherley@Senedd.Cymru

Helen Jones

Helen.Jones@Senedd.Cymru